Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bodffordd
# Bodffordd
# Llangefni
# Ynys Môn
# LL77 7LZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Bodffordd ym mhentref Bodffordd ar Ynys Môn.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ynghyd â'r ardaloedd cyfagos.  Ar hyn o bryd, mae 65 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.  Maent wedi eu trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r canran sirol a chenedlaethol.  Mae 21% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Daw 77% o'r disgyblion o gartref lle siaredir y Gymraeg.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth dros dro yn ei swydd ers mis Mai 2015, ac yn gweithredu dros gyfnod o absenoldeb ar ran y pennaeth parhaol.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Bodffordd yn 2014-2015 yw £4,771.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870.  Mae Ysgol Gymuned Bodffordd yn yr 11eg safle o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu medrau darllen cynnar
- Bod llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn dda yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen yn datblygu'n llwyddiannus
- Bod llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy ac yn defnyddio ystod briodol o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir
- Bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen afael sicr ar ffeithiau rhif yn unol â'u hoed a'u gallu
- Bod bron pob disgybl yn yr ysgol yn gwrtais, yn groesawgar ac yn hapus iawn yn eu hysgol
- Bod cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg
- Nod y cymorthyddion ar draws yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ddysgu'r disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw medrau ysgrifennu estynedig llawer o'r disgyblion hŷn, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn datblygu'n llawn mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith
- Mae arddull ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn wallus ac wedi ei seilio'n ormodol ar ffurfiau llafar y Gymraeg
- Nid yw medrau ymchwilio mathemategol mwyafrif y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol
- Nid yw cynllunio athrawon yn ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl
- Nid yw athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- Nid yw sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn sicrhau eu bod yn deall y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwella cynnwys eu gwaith yn ddigon aml

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Bod y pennaeth dros dro yn cynnig arweiniad clir gan sicrhau bod gwerthoedd yr ysgol yn cael eu hefelychu er mwyn cyflawni'r nodau yn dda
- Bod yr ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- Bod cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r

cynllun datblygu ysgol

- Bod gan yr ysgol nifer o bartneriaethau cefnogol sy'n cyfrannu'n briodol at ddeilliannau a lles y disgyblion
- Bod gan yr ysgol gysylltiadau buddiol o fewn rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion cyfagos

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad yn weithredol ar gyfer yr holl athrawon
- Nid oes trefniadau ffurfiol wedi eu nodi gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth
- Mae'r llywodraethwyr yn orddibynnol ar wybodaeth ddogfennol gan y pennaeth yn ystod y broses hunanarfarnu
- Nid oes yna flaenoriaethau penodol ar gyfer gwella arweinyddiaeth
- Mae'r adroddiad hunanarfarnu ar adegau yn disgrifio'r ddarpariaeth yn hytrach nag arfarnu effeithiolrwydd strategaethau'r ysgol ar safonau

## Argymhellion

A1 Gwella safon ysgrifennu estynedig y disgyblion mwy abl

A2 Sicrhau bod staff yr ysgol yn gweithredu ar y cynlluniau gwaith yn briodol fel bod disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm llawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn gyson dda

A4 Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau clir a chadarn ar gyfer rheoli perfformiad yr holl athrawon

A5 Rhoi trefniadau clir ar waith i gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth

A6 Sicrhau bod yr adroddiadau hunanarfarnu yn fwy miniog ac arfarnol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Ysgol Gymuned Bodffordd yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau sylfaenol da. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae gan y rhan fwyaf eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu medrau darllen cynnar gyda llawer yn darllen ar goedd yn hyderus gan amrywio goslef a llais yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn ysgrifennu ystod o frawddegau'n annibynnol. Mae llawer yn defnyddio geirfa ehangach yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu darn ffeithiol sy'n olrhain tyfiant planhigyn ffa. At ei gilydd, mae llawysgrifen bron pob disgybl yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir ac yn gyson o ran eu maint. Mae llawer yn atalnodi eu gwaith yn llwyddiannus gan ddefnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir ac yn defnyddio cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau aeddfed yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ac yn ymestyn trafodaeth yn briodol. Mae llawer yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn dda yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen yn datblygu'n llwyddiannus. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig llawer o'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn datblygu'n llawn mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio darnau ysgrifenedig yn effeithiol, er enghraifft wrth ddwyn i gof stori Culhwch ac Olwen. Mae arddull ysgrifenedig y mwyafrif yn wallus, ac wedi ei seilio'n ormodol ar ffurfiau llafar. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol, er enghraifft wrth ysgrifennu darnau llwyddiannus am y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy ac yn defnyddio ystod briodol o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen afael sicr ar ffeithiau rhif yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau mewn meysydd eraill; er enghraifft wrth gymharu maint traed disgyblion o fewn y dosbarth. Ar draws yr ystod gallu, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r termau mathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru casglu a chynrychioli data mewn tasgau rhif ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw medrau ymchwilio mathemategol mwyafrif y disgyblion o ganlyniad i ddefnydd gormodol o daflenni gwaith masnachol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau yn llwyddiannus i ddatrys problemau go iawn mewn meysydd eraill, er enghraifft wrth gyfrifo defnydd dŵr gwahanol aelodau unigol o'r teulu ynghyd â theuluoedd eraill gyda nifer gynyddol o aelodau. Yn yr ychydig gyfleoedd i wneud hynny, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn addas o fewn meysydd fel hanes a daearyddiaeth, er enghraifft wrth gyfrifo costau ariannol y Rhyfel Byd Cyntaf i'r gwahanol wledydd neu ddehongli data glawiad Ynys Môn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn aml mae nifer gymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae tueddiad ar i lawr mewn perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2014, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad o ran y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5) mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 25% isaf. Dros dair blynedd, mae perfformiad mewn llythrennedd ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi bod yn y chwarteli uwch ond yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol ers dwy flynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi gwella. Yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch (lefel 5) yn anghyson o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg, mae perfformiad wedi bod yn yr 50% uwch neu well ers tair blynedd. Fodd bynnag, dros bedair blynedd, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Nid oes gwahaniaeth nodedig mewn cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion, nac ychwaith rhwng perfformiad bechgyn a'r merched. Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn yr ysgol yn gwrtais, yn groesawgar ac yn hapus yn eu hysgol. Nodwedd gref yw'r ymdeimlad o deulu gyda chyd-dynnu rhwydd rhwng y disgyblion, athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol sy'n defnyddio'r adnoddau cymunedol o fewn yr adeilad.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda am eu hawl i fod yn ddiogel ac am bwysigrwydd cadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwyd a diod iachus ac i ddatblygu ffitrwydd. Yn ystod yr amseroedd chwarae, mae pob un ohonynt yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau priodol ar y buarth.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn ystyriol o deimladau a dyheadau'r disgyblion eraill o'u cwmpas. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio'n gyfeillgar ac yn arddangos parch a chonsyrn tuag at ei gilydd.

Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill ond nid yw eu rôl wrth wneud penderfyniadau wedi ei datblygu'n llawn.

Mae dealltwriaeth disgyblion o gryfderau eu gwaith a'r hyn y gallent ei wneud i'w wella yn datblygu'n dda o ganlyniad i strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol yn dda ac yn gyson yn yr 50% uchaf neu uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylus ac yn cynllunio ar y cyd gydag ysgolion lleol er mwyn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol yn briodol. Mae'r cynlluniau hyn yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn gwneud defnydd digon cadarn o gynnwys y cynlluniau hyn er mwyn bodloni anghenion dysgwyr yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw'r hyn a gynllunnir ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn cael ei drosglwyddo i'r cynlluniau tymor byr yn ddigon cyson. Yn ogystal, nid yw holl ofynion y cwricwlwm mewn gwyddoniaeth a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael sylw priodol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau darllen cynnar yn elfen gref drwy'r ysgol. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion astudio hanesion Cymru, er enghraifft hanes Hedd Wyn.

Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn dda; er enghraifft, bu'r ymweliad i Felin Llynnon yn effeithiol wrth gyfoethogi'r gwaith ar y Celtiaid.

Mae gwaith y grŵp gwyrdd yn cyfrannu'n addas at ddealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd. Enghraifft dda o hyn yw'r Sgwad Switsys sy'n goruchwylio'r defnydd o ynni yn yr ysgol. Mae gweithgareddau fel codi arian at elusen yng Nghenia yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu disgyblion yn ddinasyddion byd-eang. Fodd bynnag, nid yw'r elfen datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n llawn hyd yma.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan bob un o'r athrawon berthynas waith effeithiol â'r disgyblion ac maent yn sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad.

Mewn mwyafrif o'r gwersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda, mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac maent yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol allu. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn

holi'n dreiddgar er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn pob disgybl. Maent yn cynllunio cyfleodd da i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu medrau meddwl ac mae cyflymdra'r gwersi'n effeithiol.

Mewn lleiafrif o wersi, lle nad yw'r addysgu'n ddigon llwyddiannus, nid yw'r tasgau'n herio'r disgyblion mwyaf abl nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd ac yn cynnig sylwadau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwella cynnwys eu gwaith. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n briodol ar draws yr ysgol ac mae'r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion yn addas. Mae gweithdrefnau olrhain cynnydd cymharol newydd mewn lle ond nid yw'r deilliannau yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad pob disgybl.

Mae'r adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn dathlu cynnydd y disgyblion ynghyd â gosod cyfeiriad at sut i wella. Mae cyfraniadau'r disgyblion tuag at yr adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol ac yn sicrhau eu bod yn ystyried y sylwadau yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a theuluol ei naws, lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch a gofal at ei gilydd. Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus drwy gyfrwng gwasanaethau, codi arian at elusennau, arddangosfeydd pwrpasol ac wrth gynnwys barn y disgyblion am werthoedd ac ymddygiad drwy'r 'Rheolau Aur'. Mae'r ysgol wedi sicrhau cyfleoedd niferus i'r disgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol drwy'r eisteddfod leol ac Eisteddfodau'r Urdd. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gymorth asiantaethau arbenigol fel y seicolegydd addysg, arbenigwyr addysg dysgu ychwanegol a'r heddlu. Enghraifft dda o hyn yw cyfranogiad gwasanaeth yr heddlu at drefniadau'r ysgol i sicrhau ymwybyddiaeth briodol y disgyblion o e-ddiogelwch.

Mae trefniadau diogelu yn eu lle ac ar waith ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cefnogi'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Mae cyd-drafod pwrpasol ynglŷn ag unrhyw bryderon am ddisgyblion penodol rhwng y staff a chydlynwyr yn arwain at weithredu rhaglenni ymyrraeth yn effeithiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gymorthyddion ac asiantaethau allanol i ymateb i ofynion penodol y disgyblion ac i hybu datblygiad parhaus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff pob disgybl hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais cryf ar ddangos parch at bawb a chreu ethos sy’n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae’r ysgol yn ymroi’n weithgar i godi arian at elusennau amrywiol fel ‘Plant Mewn Angen’ a ‘Jeans for Genes’.

Mae gan yr ysgol ddigon o le ac mae’r adeilad yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda. Ceir amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn sylweddol. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sy’n gyffredinol o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys yr ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sy’n cael ei defnyddio’n effeithiol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi’r dysgu a’r addysgu. Mae neuadd yr ysgol yn cael ei defnyddio’n effeithiol gan y cylch meithrin yn y boreau a chan y gymuned leol wedi i’r diwrnod ysgol ddod i ben.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir a chyfres o amcanion strategol priodol.

Mewn cyfnod byr, mae’r pennaeth dros dro wedi cynnig arweiniad clir gan sicrhau bod gwerthoedd yr ysgol yn cael eu hefelychu er mwyn cyflawni ei hamcanion. Mae’r holl staff yn ei chefnogi ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn lled briodol. Mae hyn wedi galluogi’r ysgol i barhau i gynnal lefelau da o ran presenoldeb a lles y disgyblion.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, drwy wella medrau darllen cynnar y disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion hynny sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae’r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ysgol gyfan ac yn cymryd cyfrifoldeb am wahanol agweddau. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau ar gyfer hyn yn ddigon ffurfiol ac nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad yn weithredol ar gyfer yr holl athrawon, gan gynnwys nodi eu hanghenion datblygu proffesiynol yn ddigon effeithiol.

Mae gan y staff swydd-ddisgrifiadau priodol. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol wedi eu nodi gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth.

Mae’r corff llywodraethol yn dechrau datblygu eu rôl strategol i fonitro gweithdrefnau’n ffurfiol ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif ynghylch ei pherfformiad yn fwy effeithiol. Maent yn cyfrannu at y drefn hunanarfarnu ac yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn briodol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyfeirio'n glir at safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae hefyd yn nodi'r mannau lle mae angen gwelliant yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r ddogfen ar adegau yn disgrifio'r ddarpariaeth yn hytrach nag arfarnu effeithiolrwydd strategaethau'r ysgol ar safonau.

Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol drwy ddadansoddi data, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi a chasglu ac ystyried barn y disgyblion a'r rhieni. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at yr arfarniad drwy drafodaethau a chynnig gwelliannau. Fodd bynnag, mae'r llywodraethwyr yn orddibynnol ar wybodaeth ddogfennol gan y pennaeth yn hytrach na gweithredu ar wybodaeth uniongyrchol.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn rhoi ystyriaeth i'r agweddau sydd angen gwelliant, fel codi safonau ysgrifennu'r disgyblion, ac mae'n cynnwys amserlen weithredu benodol ynghyd â chyfrifoldebau staff a chostau. Fodd bynnag, nid yw'n nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella arweinyddiaeth ac eithrio'r cyfeiriad at wella rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r cynllun datblygu blaenorol fel sail i fesur unrhyw gynnydd cyfredol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau cefnogol sy'n cyfrannu'n dda at ddeilliannau a lles y disgyblion.

Mae partneriaeth agos gyda'r rhieni, a hefyd gyda chymdeithas y rhieni sy'n cyfrannu'n dda tuag at gyllid yr ysgol, er enghraifft, drwy brynu adnoddau sy'n cyfoethogi ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen.

Mae partneriaethau effeithiol sy'n bodoli gyda'r gymuned yn rhai cryf ac yn hybu diwylliant Cymreig yr ysgol yn llwyddiannus; er enghraifft, mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn yr eisteddfod leol. Daw gwirfoddolwyr o'r pentref i'r ysgol i helpu'r disgyblion gyda gweithgareddau llefaru a hefyd i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at wella safon llythrennedd a mynegiant llafar y disgyblion.

Mae'r partneriaethau o fewn y byd chwaraeon yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion drwy fagu agweddau cadarn tuag at gadw'n iach. Er enghraifft, mae cystadleuaeth pêl droed mewn partneriaeth â hyfforddwr pêl droed rhyngwladol, ynghyd â sesiynau hyfforddi rygbi a hoci yn cynnig amrediad eang o weithgareddau sy'n cyfrannu'n sylweddol at les y disgyblion.

Mae partneriaethau agos gydag ysgolion lleol yn sicrhau cysondeb o fewn safoni a chymedroli asesiadau a gwaith y disgyblion.

Mae cynllunio strategol da yn bodoli gyda'r ysgol feithrin leol yn sicrhau bod disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol yn gwneud hynny'n hapus.

Ceir hefyd drefniadau trosglwyddo effeithiol i ddisgyblion hŷn yr ysgol sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus er mwyn iddynt setlo'n gyflym a chanolbwyntio'n briodol ar eu gwaith yn eu hysgol newydd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd staff i sicrhau cymorth penodol i ddisgyblion; er enghraifft, drwy gryfhau medrau darllen a chodi hyder disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn elwa o gyfleoedd hyfforddiant, er enghraifft i'w galluogi i gefnogi anghenion iaith a llefaredd disgyblion. Mae pob aelod o staff yn derbyn amser penodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol o fewn rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion cyfagos. Mae'r rhain yn rhoi cyfle iddynt drefnu a chynllunio gwersi ar y cyd.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol, ynghyd â swyddog cyllid yr awdurdod lleol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol.

Mae'r ysgol yn defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru yn addas i gryfhau arbenigedd y staff er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi arfarnu effaith y ddarpariaeth hon a bellach nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad y disgyblion hyn o'u cymharu â'r gweddill.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602133 - Ysgol Gymuned Bodffordd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 60 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 8 | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 62.5 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 8 | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 75.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 0.0 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 8 | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 87.5 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 100.0 | 62.5 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602133 - Ysgol Gymuned Bodffordd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 60 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 8 | * | 7 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 62.5 | * | 85.7 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 3 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | * | 28.6 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 3 | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | * | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | * | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | * | 28.6 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 2 | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | * | 85.7 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | * | 28.6 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 3 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | * | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | * | 28.6 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 3 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 25 | 23<br>92% | 2<br>8% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 25 | 20<br>80% | 5<br>20% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 22<br>92% | 2<br>8% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 25 | 23<br>92% | 2<br>8% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 25 | 23<br>92% | 2<br>8% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 25 | 19<br>76% | 6<br>24% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 25 | 24<br>96% | 1<br>4% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 25 | 22<br>88% | 3<br>12% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 25 | 8<br>32% | 17<br>68% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 25 | 23<br>92% | 2<br>8% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 25 | 9<br>36% | 16<br>64% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 25 | 17<br>68% | 8<br>32% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 16 | 15 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 45% | 3% | 3% | | |
| | | 63% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 18 | 12 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 55% | 36% | 6% | 3% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 24 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 33 | 15 | 15 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 9% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 18 | 13 | 0 | 1 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 39% | 0% | 3% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 14 | 15 | 3 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 47% | 9% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 18 | 12 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 36% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 10 | 14 | 4 | 3 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 44% | 12% | 9% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 18 | 12 | 2 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 55% | 36% | 6% | 3% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 33 | 22 | 11 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 25 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 76% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 10 | 12 | 4 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 40% | 13% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 33 | 12 | 15 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 45% | 12% | 6% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 33 | 15<br>45% | 16<br>48% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 33 | 11<br>33% | 15<br>45% | 2<br>6% | 1<br>3% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 14<br>44% | 17<br>53% | 0<br>0% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 6<br>21% | 11<br>39% | 3<br>11% | 1<br>4% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 17<br>52% | 13<br>39% | 3<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 33 | 13<br>39% | 18<br>55% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Robert Huw Jenkins | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Iona Meryl Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eirianwen Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.